

Ymchwilio a Rhannu eich Hanes Cudd

Canllaw i ysgolion a grwpiau cymunedol

Beth yw Hanesion Cudd, a pham maen nhw yn bwysig?



Meddylwch am rywun enwog ym myd hanes-pwy sy'n dod i'r meddwl? David Lloyd George? Betsi Cadwaladr? T. H. Parry Williams efallai? Mae'r rhain yn enwau adnabyddus - pob un ohonynt wedi chwarae eu rhan mewn llunio'r gorffennol. Ar yr un pryd nid oes rhaid bod yn bwysig i wneud gwahaniaeth. Mae gan bob un ohonom stori, safbwynt, rywbeth i'w ddweud.

Prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri ydy **'Cymru dros Heddwch'** (rhan o Gronfa Dreftadaeth y Loteri), sy'n gofyn un cwestiwn mawr:

“Yn y 100 mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, sut mae Cymru wedi cyfrannu at geisio heddwch.”

Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, credwn fod rhaid edrych nid yn unig ar hanesion 'pobl bwysig' ond hefyd ar 'hanesion cudd' - sef y straeon hynny sydd heb gael eu dweud eto - profiadau arbennig o anghyffredin efallai, o unigolyn cyffredin sydd wedi eu cael eu hunain yn yr amser a'r lle cywir i wneud gwahaniaeth.

Pa fath o Straeon ydym ni yn edrych amdanynt?

1

MILWYR A'U TEULUOEDD

Hanesion a thystiolaethau milwyr o'r gorffennol hyd heddiw

2

FFOADURIAID A CHWILWYR LLOCHES

Ffoaduriaid a ddaeth i'r wlad hon yn ddiweddar neu rai a gyrhaeddodd amser hir yn ôl

3

HEDDYCHWYR

Pobl sydd wedi gwneud safiad dros heddwch, ac weithiau wedi dioddef o'i herwydd

4

ARWEINWYR CYMUNEDOL

Pobl sydd wedi gweithio ac yn dal i weithio dros ddealltwriaeth a chytgord rhwng gwahanol grwpiau - yn eu cymuned leol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol

Fodd bynnag, gall eich hanes fod am unrhyw un o Gymru sydd, mewn rhyw ffordd, wedi gwrthwynebu neu wedi'i effeithio gan ryfel yn ystod y ganrif ddiwethaf. Gallai fod yn stori enw milwr ar gofeb, yn stori ffoaduriaid yn ffoi i Gymru rhag perygl, menywod a gymerodd ran yn y gweryll heddych yng Nghomin Greenham, rhywun a ymgyrchodd yn erbyn apartheid, neu sydd yn dal i weithio dros heddych yng Nghymru a'r byd heddiw. Gall eich stori fod wedi digwydd ym 1914, neu am 19:14 neithiwr.

Bydd y canllaw hwn yn rhoi popeth sydd ei angen arnoch i ddatgelu a dweud eich stori. Bydd yn gymorth wrth i chi benderfynu sut hoffech gyflwyno eich stori, faint o waith hoffech chi ei wneud, a faint o gefnogaeth sydd angen arnoch chi. Defnyddiwch e - da chi - a chofio rhoi adborth!

Creu 'Hanes Cudd' – lle i ddechrau?

Y peth cyntaf sydd angen arnoch chi yw syniad pendant. Hanes pwyl hoffech chi ei adrodd? Y mae rhai enghreifftiau eisoes ar gael ar ein gwefan yma: <https://wciavoices.wordpress.com/>

Os oes gennych rywun mewn golwg, ond ddim yn gwybod ble i ddechrau, gallai gwylio pennod o'r rhaglen BBC "Who Do You Think You Are" fod yn help - rhaglen lle mae pobl enwog yn ymrwymo i ddarganfod mwy am hanes eu teulu. Sylwch lle mae'r bobl hyn yn mynd i chwilio am wybodaeth, pa fath o ddogfennau maen nhw yn eu defnyddio, a phwy sydd yn eu cynorthwyo. Gallwch weld rhaglenni blaenorol ar i-player yma::

<http://www.bbc.co.uk/programmes/b007t575/episodes/guide>

Gall eich hanes cudd fod am aelod o'ch teulu, neu rywun yn eich cymuned sydd, yn eich barn chi, â stori werthfawr. Efallai eich bod yn hoffi'r syniad o ddweud straeon pobl eraill sydd wedi byw bywydau tebyg i'ch un chi, ond sydd wedi'u heffeithio gan wrthdaro. Penderfynwch chi! Siaradwch â'ch ffrinidiau a rhannwch syniadau! Os nad oes gennych syniadau, edrychwch ar yr awgrymiadau ar y **Daflen 'Cyngor Craff 1'** ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Cynnal eich ymchwil

Nawr bod gennych syniad, sut ewch chi ati i ddod o hyd i wybodaeth? Rhestrir rhai llefydd y gallwch ymweld â nhw isod.

- **Archifau a Chofrestrfeydd Lleol.** Maen nhw yn cadw gwybodaeth megis tystysgrifau genedigaeath, priodas a marwolaeth - hefyd gwybodaeth cyfrifiad (census), papurau newyddion lleol a ffotograffau. Efallai gallwch drefnu ymweliad?

- **Ar lein:** Gallwch ddod o hyd i lawer o wybodaeth ar "Casgliad y Werin". Mae hon yn wefan sy'n ymroddedig i gadw hanes bob dydd Cymru. Gallwch ymuno a chyfrannu at y wefan yn rhad ac am ddim, ac mae llawer o unigolion a grwpiau yn ei defnyddio i gasglu a rhannu gwybodaeth a delweddau am eu pentref neu dref, hen ysgol, neu efallai eu diddordeb arbennig fel hen dai Cymreig. Mae ychydig fel cael llawer o amgueddfeydd lleol ar-lein. Mae'n bosibl cael mynediad i'r we yn eich llyfrgell leol

- Y mae **Papurau Newyddion Cymru ar lein** yn adnodd da iawn os ydych am chwilio am erthyglau papurau newyddion neu am berson arbennig neu ddigwyddiad o'r 20fed ganrif gynnar. Mae ar gael yma: <http://newspapers.library.wales/>

- Os hoffech chi ymchwilio hanes gwrthwynebwr cydwybodol o gyfnod y Rhyfel Mawr yn enwedig, gallwch ddefnyddio **Cofrestr Pearce o Wrthwynebwyr Cydwybodol.** Gwaith Cyril Pearce ydy'r gofrestr, uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Leeds, sydd wedi ymddeol erbyn hyn. Cronfa ddata yw hon, sy'n rhoi manylion am yr hyn sy'n hysbys am Wrthwynebwyr Cydwybodol y Rhyfel Byd Cyntaf ar draws y DU. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am wrthwynebwyr Cymraeg gan fynd at **Fap Heddwch Cymru:** <http://www.walesforpeace.org/wfp/pearceregister> a ticio'r boc Cofrestr Pearce.



Beth os hoffwn ddarganfod hanes cudd gan unigolyn sydd yn dal yn fyw?

Efallai y byddwch eisiau cyfweld â rhywun sydd wedi bod yn cymryd rhan mewn digwyddiadau mwy diweddar, neu hyd yn oed rywun sydd yn ysbrydoliaeth yn eich cymuned leol heddiw! Efallai byddwch chi dal eisiau gwneud ymchwil gefndirol (e.e. mewn archifau neu bapurau newydd. Er hynny mae'n wych os gallwch chi gyfweld â'r person wyneb yn wyneb! Beth am gysylltu â nhw a gofyn caniatâd?

Rhai pethau i feddwl amdanynt o flaen llaw:

- Sut wnewch chi recordio'r cyfweiliad? (sain? fideo?) Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi cael caniatâd, a bod yr unigolyn yn gyffyrddus gyda hyn!
- Pa offer wnewch chi ei ddefnyddio? e.e. ffôn symudol clyfar, i-pad, meic, camera fideo.....
- Pa gwestiynau byddwch chi yn eu gofyn? Mae'n syniad da i lunio rhestr cwestiynau - os yn bosibl rhai agored a fydd yn eich helpu i gael mwy o wybodaeth, yn hytrach na rhai caeedig a fydd yn arwain at atebion 'le' neu 'Nage'. Cymerwch gip ar **"Daflen 2 Cyngor Craff: Cynnal Cyfweiliadau"** ar ddiwedd y llyfryn hwn am gyngor mwy manwl.

Gwnewch yn siŵr fod gennych ganiatâd yr unigolyn cyn i chi ddefnyddio unrhyw wybodaeth amdanynt. Dylech fod yn sensitif am sut y gallai'r hyn y byddwch yn ei ysgrifennu yn medru effeithio arnynt. Gwiriwch gyda nhw cyn cyhoeddi unrhyw beth.



Sut ydw i yn rhoi'r stori at ei gilydd?

Does dim rhaid i'ch hanes fod yn hir iawn, ond dylai gynnwys y canlynol:

- Pryd a ble y ganwyd yr unigolyn
- Ble roeddent yn byw, neu i le y cawsant eu hanfon o ran y stori rydych yn ei dweud
- Beth wnaethon nhw a sut effeithiodd hyn arny'n nhw a'r rhai o'u cwmpas
- Sut, yn eich tyb chi, roedden nhw yn teimlo - a'r rhai o'u cwmpas
- Ble a phryd (a sut) bu iddynt farw
- A ydy'r hanes hon yn bwysig inni heddiw? Os felly, pam?

Eu gweithredoedd, wrth gwrs, a ddylai fod yn brif ffocws eich stori.

A wnaethon nhw roi eu hunain o flaen eraill? Mewn ffyrdd bach, bob dydd, neu fel gweithred crand neu ddewr? A wnaethon nhw gyflawni rhywbeth defnyddiol, neu anghyffredin? Efallai bod eu gweithredoedd wedi cael effeithiau pellgyrhaeddol, ymhell y tu hwnt i'w bwriadon - fel Oskar Schindler er enghraifft? Oedden nhw'n gweld pethau'n wahanol i'r consensws-fel gwrthwynebydd cydwybodol er enghraifft? Os ydych yn ymchwilio i'r cwestiynau hyn, byddwch yn gwybod beth yw eu stori. Gallwch hefyd ddychmygu sut roedd pethau iddyn nhw ac eraill, gan gynnwys eich meddyliau a'ch teimladau am yr hyn wnaethon nhw a pham.

Ar ôl i chi fynd drwy'r camau uchod, rhowch gynnig ar ysgrifennu eich canfyddiadau. Does dim rhaid iddo fod yn hir - mae paragraff gyda llun neu fap neu ddarn o lythyr yn fuddiol iawn. Edrychwch ar stori George Elwyn Davies, milwr sydd â'i enw yn ymddangos ar gofeb rhyfel Arberth:

Cofiwch ein bod yn chwilio am straeon cudd pobl gyffredin, a ddatgelwyd gan bobl sy'n byw yng Nghymru heddiw.

Does dim rhaid iddo ddarllen fel erthygl papur newydd. Defnyddiwch eich dychymyg i feddwl sut byddai'r person wedi teimlo, a gofynnwch gwestiynau am pam wnaethon nhw weithredu fel y gwnaethant, sut wnaeth eraill ymateb iddynt, a sgîl-ffeithiau eu gweithredodd.



Yr hanesion y tu ôl i'r enwau...
George Elwyn Davies
Ganwyd George Elwyn Davies yn Nhrefemi, Arberth y 1895.
Gadawodd Ysgol y Sir Arberth pan oedd yn 15 oed. Agorodd siop gigydd, gan dsood y siopwr ieuengaf yn y dref.
Weddi'i siomi na allodd ymuno â'r Ilynges, ymrestrodd yn hytrach gyda Ffwtswlwy'r Sir Gaerllifryn, un o lawer o ddynion Arberth yn y gatrawd honno. Gyrwyd i Ffrainc gyda Byddin Ymgrychol Prydain.
Dioddefodd galedi mawr ym Mrwydr Poelcappelle. Erbyn mis Tachwedd 1917 roedd ei Fatailwn, yr 2ll/7fed, yn Ypres a Passchendaele.
Oddi yma ysgrifennodd ei lythyr olaf adref.
Bu farw o glwyffau helaeth ar 11eg Tachwedd. Claddwyd ym Mynwent Filwrol Lijssenthoek.


The stories behind the names...
George Elwyn Davies
George Elwyn Davies was born in Templeton, Narberth in 1895.
He left Narberth County School when he was 15 and opened a butcher's shop, becoming the youngest shopkeeper in the town.
Disappointed not to have been able to join the navy, he enlisted instead in the Lancashire Fusiliers, one of many Narberth men in that regiment. He was sent to France with the British Expeditionary Force.
He endured great hardship at the Battle of Poelcappelle and by November 1917 his Battalion, the 2nd/7th, was at Ypres and Passchendaele.
It was from here that he wrote his last letter home.
He died of extensive wounds on 11th November and was buried at Lijssenthoek Military Cemetery.

LLONGYFARCHIADAU! DYNA HANES CUDD WEDI EI DDATGELU! NAWR GALLWCH BENDERFYNU SUT HOFFECH EI RANNU AG ERAILL.

A HOFFECH DDEFNYDDIO DULL ARALL I DDOD Â'CH HANES YN FYW?

Gall ysgrifennu da - erthygl neu blog neu gerdd - fod yn bwerus iawn. Er hynny, mae hi'n bosibl yr hoffech rannu eich stori mewn rhyw ffordd arall. Beth am fod yn greadigol? Gallwch rannu eich hanes ar ffurf:

- Cyfweiliad sain
- fideo
- Ffilm wedi'i hanimeiddio.



Siaradwch ag eraill yn eich dosbarth/ grŵp cymunedol a phenderfynu pa gyfrwng sydd orau, pa offer fydd angen arnoch chi, a sut byddwch yn cynllunio a chynhyrchu eich hanes.

Cofiwch gael hwyl!

Cewch rai awgrymiadau ymarferol i'ch helpu yn **Nhaflen Cyngor Call 3.**

Cofiwch rannu'r hyn byddwch yn ei gynhyrchu gyda Chymru dros Heddwch fel y medrwn ei gynnwys ar ein **Map Heddwch!**

TAFLEN CYNGOR CALL 1 – HELP! WN I DDIM AM BWY Y DYLWN I EI YSGRIFENNU

Cofiwch y medrwch chi ysgrifennu am rywun lleol (gyda’u caniatâd!) Hyd yn oed os ydynt yn enwog yn eich ardal chi, mae hi’n llai tebygol y byddant yn adnabyddus mewn rhannau eraill o’r wlad, felly maen nhw yn dal yn cyfrif fel ‘hanes cudd’.


Ceisiwch ddarllen rhai llyfrau hanes lleol. A ydy unrhyw un yn sefyll allan fel cymeriad diddorol y medrwch chi ei ymchwilio?

Edrychwch ar eich cofgolofn lleol. Pa enwau sydd o ddiddordeb i chi?

Trefnwch ymweliad â’ch archifdy lleol ac edrych ar bapurau newydd lleol. Os nad oes gennych syniad lle i ddechrau, dewiswch ddyddiad sydd o bwys i chi – megis pen-blwydd, Brwydr Mametz, marwolaeth Hedd Wyn neu ddiwedd rhyfel, a gweld beth sydd yn dod i’r amlwg o hynny.

Os yn bosibl, treuliwch amser gyda hen bobl yn eich cymuned a gwranddo ar eu storïau o’r gorffennol. Beth sydd yn sbarduno eich dychymyg?

Os ydych chi yn dal yn brin o syniadau, cysylltwch â Chymru dros Heddwch a gofyn am awgrymiadau.



TAFLEN CYNGOR CALL 2 – CYNNAL CYFWELIADAU

• Un o’r ffyrdd gorau o gael y person y byddwch chi yn cyfweid â nhw i ymlacio yw trwy beidio â defnyddio’r gair ‘cyfweliad’! Gallwch gyfeirio ato fel sgwrs neu gyfle i gofio

• Cofiwch ofyn iddynt ddweud pwy ydyn nhw a’r hyn maen nhw yn mynd i siarad amdani.

• Mae rhai cwestiynau yn ffeithiol. Peidiwch â phoeni gormod am sut byddwch yn geirio cwestiynau megis “o ble rydych chi yn dod? Am faint ydych chi wedi bod yn rhan o”

• Os ydy’r person yn siarad yn eithaf rhydd ond rydych chi am roi cyfeiriad pendant i’r sgwrs, ceisiwch ddefnyddio cwestiynau megis: “Sut mae hyn yn gwneud i chi deimlo”, “Beth yw eich barn chi am”ayb.

• Yn gyffredinol mae hi’n well defnyddio cwestiynau penagored yn hytrach na rhai caeedig, sef cwestiynau sydd yn disgwyl yr ateb “Ie” neu “Nage”.

• Dyma rai enghreifftiau cyffredinol o gwestiynau agored all hefyd fod yn berthnasol i hanes cudd:

Beth yw eich hoff atgof o’ch plentyndod?

Sut brofiad gawsoch chi o?

Sut oedd yn gwneud i chi deimlo?

Sut cawsoch chi a’ch teulu eich effeithio gan ...?

Sut aethoch chi ati i ?

Sut ydych chi yn teimlo am yr hyn a ddigwyddodd nawr?

Yn eich barn chi, pam mae’r hyn a ddigwyddodd yn bwysig i ni heddiw?


• Peidiwch â phoeni am faint y sgwrs. Cofiwch y medrwch olygu cyfweliadau wedyn.

• Ceisiwch beidio â siarad yn rhy gyflym neu eu brysio nhw fel eu bod yn siarad yn rhy gyflym.



TAFLEN CYNGOR CALL 3 – CREU RECORDIADAU SAIN A FIDEO EFFEITHIOL

- Y mae rhai o'r ffonau clyfar newydd wedi cael gwared â'r gwasanaeth recordio sain, ond mae'n bosib lawr lwytho ap. Mi fydd gwirfoddolwr digidol yn gallu helpu chi hefo hyn, neu mae'n bosib gallwn ni fenthyg offer recordio sain i chi
- **Cofiwch ymarfer yn gyntaf!** Os oes gennych ffôn clyfar, i-pad neu dablet gydag opsiwn recordio, rhowch gynnig ar recordio eich hunan neu gyfweld â rhywun arall, ond peidiwch ag anghofio gofyn caniatâd! Dylai'r swyddogaeth recordio sain gael ei nodi gan symbol microffon bach:



- Ar gyfer **recordiad sain ansawdd uchel** dylai gosod y meicroffon yn agos at yr unigolyn sy'n siarad, mewn lle braf a thawel sydd ddim yn wyntog er mwyn lleihau ar yr ymyrraeth o'r tu allan.
- Wrth **gyfweld** â rhywun mae hi'n help paratoi eich cwestiynau o flaen llaw – rhai fydd yn rhoi'r wybodaeth sydd angen arnoch chi! Cofiwch siarad yn weddol araf ac yn glir, fel y gall pobl eich clywed.
- Ar gyfer creu **fideo**: Dylech allu dod o hyd i'ch swyddogaeth fideo yn eich swyddogaeth camera ar eich ffôn – dylai gael opsiwn i newid o ddelweddau llonydd i ddelweddau symudol.
- Wrth ffilmio cofiwch osod y camera, ffôn neu ipad fel eich bod yn cael llun da o ben ac ysgwyddau'r unigolyn, fel arfer, ar dipyn o ongl (fel maen nhw'n gwneud ar y teledu pan rydych yn clywed y cyfwelydd yn gofyn y cwestiynau, ond dim yn gallu eu gweld nhw). Gallai'r unigolyn rydych yn cyfweld â nhw gael rhywbeth i'w ddweud am sut olwg sydd arnyn nhw! Mae ffilmio o ychydig yn uwch i fyny yn well fel arfer.
- **Rhowch gynnig ar drosglwyddo'r deunydd oddi ar y ffôn i'r cyfrifiadur.** Efallai y bydd yn rhaid ichi wneud hyn drwy gyfrwng cebl USB (y cebl rydych yn ei ddefnyddio i'w wefru), neu ei uwch lwytho i ap.

Gwybodaeth ar gyfer Athrawon ac Arweinwyr Cymunedol:

1. Ymweld â'ch Archifau lleol:

Gallwch weld rhestr o Archifau a swyddfeydd Cofrestru yng Nghymru ar ddiwedd y canllawiau hyn. Os ydy'ch ymweliad yn golygu costau teithio, mae hi'n bosibl y gall Cymru dros Heddwoch eich digolledi. Cysylltwch â ni drwy e-bostio: walesforpeace@wcia.org.uk.

2. Defnyddio Casgliad y Werin:

<https://www.casgliadywerin.cymru/> Os hoffech gael rhywfaint o gymorth gyda'r adnoddau ar-lein hyn, gallwn eich paru chi gyda gwirfoddolwr digidol, naill ai mewn person, dros y ffôn neu drwy e-bost. Gofynnwch!

3. Cael mynediad i Gofrestr Pearce o Wrthwynebwyr Cydwybodol:

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am wrthwynebwyr Cymraeg trwy fynd at Fap Heddwoch Cymru : http://www.cymrudrosheddwoch.org/wfp/peacemap_cy.html ac yna ticio blwch y Gofrestr Pearce.

- Bydd bar chwilio yn ymddangos ar draws gwaelod y map, a bydd y rhestr lawn o gofnodion y Gofrestr Pearce yn ymddangos mewn tabl islaw'r bar chwilio (5 cofnod fesul tudalen). Gallwch hidlo/chwilio yn y ffyrdd canlynol:
- chwilio yn ôl **enw**: teipiwch enw neu ran o enw yn y bocs, a bydd yr holl gofnodion sy'n cynnwys yr enw hwn yn ymddangos
- hidlo yn ôl **sir**: dewiswch unrhyw rai o'r siroedd o'r gwymplen. [Siroedd Cymru yw'r rhain cyn 1994](#)
- chwilio yn ôl **tref**: teipiwch unrhyw dref neu bentref i ddod o hyd i'r cofnodion o'r lleoliad hwnnw-nid oes gan bob cofnod yr wybodaeth hon
- hidlo yn ôl **symbyliad**: dewiswch unrhyw symbyliad o'r rhestr, a bydd y canlyniadau yn ymddangos isod

Cliciwch ar 'Find out more' ar unrhyw gofnod i weld yr holl fanylion oddi ar y Gofrestr Pearce, o wybodaeth am dribiwnlysoedd, i fanylion y gwasanaeth carchar. Os hoffech gael help gan wirfoddolwr digidol, gofynnwch!

4. Cefnogi Disgyblion / Aelodau'ch grŵp i gyfweld â phobl sydd yn dal yn fyw:

Cofiwch sicrhau fod unigolion neu grwpiau y cyfwelir â nhw wedi rhoi eu caniatâd ac yn gyffyrddus gydag unrhyw dechnoleg a ddefnyddir (e.e. ffôn, i-pad, camera, meic). Dylid ffurfioli unrhyw ganiatâd ar ffurflen ddatganiad, a gall Cymru dros Heddwoch ddarparu'r rhain i chi.

Mae hi hefyd yn bwysig sicrhau bod y disgyblion / aelodau'ch grŵp wedi paratoi am y cyfweliad, hynny yw eu bod nhw yn gwybod sut i weithio unrhyw offer ac yn glir pa gwestiynau maen nhw yn mynd i'w gofyn - rhai agored os yn bosibl.

5. Cyhoeddi gwaith ar-lein:

Unwaith mae'ch disgyblion/ aelodau'ch grŵp yn hapus gyda'r stori maen nhw wedi'i chreu ac wedi derbyn unrhyw gymorth a chynghor gennych, gallwch ei hanfon at Gymru dros Heddwoch i'w chyhoeddi. Gallwn gael un o'n gwirfoddolwyr i'w theipio i fyny a'i llwytho ar ein gwefan. Gallwch bostio eich stori atom ni i:

Cymru dros Heddwoch, Y Deml Heddwoch, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3AP, neu ei hanfon trwy e-bost at : cymrudrosheddwoch@wcia.org.uk

6. Os yw eich hanes cudd mewn fformat arall, (e.e. ffilm, recordiad sain, ffilm wedi'i animeiddio)

Cysylltwch â ni i drafod y ffordd orau i'w rannu. Mae'n bosibl y medrwn hefyd eich helpu gyda chyfarpar megis i-pad neu gyfarpar recordio).

7. Os ydych angen unrhyw gymorth technolegol, neu unrhyw gynghor arall, cysylltwch â ni:

Trwy'r post: Cymru dros Heddwoch, Y Deml Heddwoch, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3AP.

Trwy e-bost: cymrudrosheddwoch@wcia.org.uk

Dros y ffôn: 029 2082 1051

Manylion Cyswllt am holl wasanaethau archifol Cymru

Ffoniwch ymlaen llaw am yr oriau agor ac i gael gwybodaeth am y protocol ymweld os na roddir yr wybodaeth isod, gan fod gan bob un oriau a gweithdrefnau gwahanol.

Gweler wefan Archif Cymru: <https://archives.wales/visit-us/find-your-archive/>

Archifau Prifysgol Aberystwyth
Ffôn: 01970 628593

Archifau Ynys Môn
Rhif Ffôn: 01248 751930
Amseroedd Agor
Dydd Llun: 9.15am - 4.45pm (ar gau am ginio 1pm - 2pm)
Dydd Mawrth: 9.15am - 4.45pm (ar gau am ginio 1pm - 2pm)
Dydd Mercher: 9.15am - 4.45pm (ar gau am ginio 1pm - 2pm)
Dydd Iau: Ar gau
Dydd Gwener: Ar gau

Archifau a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor
Ffôn: 01248 382966
Amseroedd Agor
Dydd Llun i ddydd Gwener
9.00am - 1.00pm
2.00pm - 5.00pm

Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin
Llyfrgell Llanelli: 01554 744327
Llyfrgell Caerfyrddin: 01267 224824
Llyfrgell Rhydaman: 01269 598360

Archifau Ceredigion
Rhif Ffôn: 01970 633697 neu 633698

Gwasanaeth Archifau Conwy
Rhif Ffôn: 01492 577550
Amseroedd Agor
Dydd Llun i ddydd Iau o 10:00 tan 12:30 a 13:30 tan 16:30

Archifau Sir Ddinbych
Rhif Ffôn: 01824 708250
Amseroedd Agor
Dydd Llun - Ar gau
Dydd Mawrth - Ar gau
Dydd Mercher - 1.30pm - 4.30pm
Dydd Iau - 9.30am - 4.30pm*
Dydd Gwener - 9.30am - 4.30pm*
* Sylwer bod gwasanaeth cyfyngedig rhwng 11.45am a 2pm ar ddydd Iau a dydd Gwener.

Swyddfa Cofnodion Sir y Fflint
Rhif Ffôn: 01244 532364
Amseroedd Agor
Dydd Llun: 10.00 am - 4.30 pm
Dydd Mawrth: 10.00 am - 4.30 pm
Dydd Mercher: AR GAU
Dydd Iau: 10.00 am - 4.30 pm
Dydd Gwener: 10.00 am - 4.30 pm

Archifau Morgannwg
Rhif Ffôn: 029 2087 2200

Archifau Gwent
Rhif Ffôn: 01495 353363
Amseroedd Agor
Ar agor dydd Llun i ddydd Gwener 9:30 - 5:00 p.m
Rydym hefyd ar agor ar yr **Zil ddydd Sadwrn o bob mis**, o 10.00am - 4.00pm

Archifau Gwynedd - Swyddfa Cofnodion Caernarfon
Rhif Ffôn: **01286 679 095**
Amseroedd Agor:
Dydd Mercher: 9.30-12.30, 1.30-7;
Dydd Iau i ddydd Gwener: 9.30-12.30, 1.30-5

Archifau Gwynedd-Swyddfa Cofnodion Meirionnydd
Ffôn: 01341 424682
Amseroedd Agor
Dydd Llun: 09:30 - 12:30; 13:30 - 17:00
Dydd Mawrth: 9.30-12.30, 13.30 - 17.00
Dydd Mercher: AR GAU
Dydd Iau: AR GAU
Dydd Gwener: AR GAU
Dydd Sadwrn: AR GAU

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Ffôn: 01970 632 800
Oriau Agor:
Dydd Llun i ddydd Gwener: 9:00am - 6:00pm
Dydd Sadwrn: 9:30am - 5:00pm

Swyddfa Cofnodion Sir Benfro
Rhif Ffôn: 01437 775456
Oriau Agor
Dydd Mercher: 10am - 8pm;
Dydd Iau a dydd Gwener: 10am - 5pm;
Dydd Sadwrn: 10am - 3pm (dim ar agor ar benwythnosau Gŵyl y Banc)
Ni fydd unrhyw gofnodion yn cael eu rhyddhau rhwng 12.30 i 1.30 a 5.30 i 6.30 ar ddydd Mercher, a rhwng 12.30 i 1.30 ar ddydd Sadwrn.

Archifau Powys
Rhif Ffôn: 01597 826 088. Ymweliadau yn ôl apwyntiadau.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Rhif Ffôn 01970 621 200

**Casgliadau Arbennig ac Archifau, Prifysgol
Caerdydd**
Rhif Ffôn 029 2087 4911
Amseroedd agor:
9am - 5pm, Dydd Llun i ddydd Gwener

Archifau Richard Burton, Prifysgol Abertawe
Rhif Ffôn: 01792 295021
Amseroedd Agor
Mae'r Archifau ar agor i bawb. Ymweliadau drwy
apwyntiad yn unig. Mae'n rhaid gwneud
apwyntiadau ar gyfer nos Fawrth cyn 13:00 ar y
dydd Gwener blaenorol
Dydd Llun: 9:15-13:00, 14:00-16:45
Dydd Mawrth: 9:15-13:00, 14:00-16:45, 17:30-19:30
(yn ystod y tymor)
Dydd Mercher: 9:15-13:00, 14:00-16:45
Dydd Iau: 9:15-13:00, 14:00-16:45
Dydd Gwener: 9:15-13:00, 14:00-16:45

Archifau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Rhif Ffôn: 01570 424716

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg
Rhif Ffôn: 01792 636589
Amseroedd Agor
Dydd Llun: AR GAU
Dydd Mawrth: 9.00am-7.00pm
Dydd Mercher: 9.00am-5.00pm
Dydd Iau: 9.00am-5.00pm
Dydd Gwener: 9.00am-5.00pm

**Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg -
Archifau Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd**
Rhif Ffôn: 01639 620139
Amseroedd Agor
Dydd Llun: 9.30am-12.30pm, 1.30pm-5.00pm
Dydd Mawrth: 9.30am-12.30pm, 1.30pm-5.00pm

Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam
Rhif Ffôn 01978 297 480
Amseroedd Agor
**Dydd Llun, Dydd Mercher, Dydd Iau, Dydd
Gwener:** 10:00-5:00pm
Dydd Sadwrn olaf pob mis 11:00-4:00pm
Cais olaf am ddogfen 4.30pm
Rhaid archebu dogfennau ymlaen llaw ar gyfer
dydd Sadwrn.
Ar gau ar ddydd Mawrth, dydd Sadwrn (heblaw am
ddydd Sadwrn olaf y mis), dydd Sul, Gwyliau
Cyhoeddus
